Pecyn gwybodaeth

Camlas Abertawe

Darllenwch fwy i ddarganfod pam roedd Camlas Abertawe mor bwysig i ddatblygiad diwydiannau ac aneddiadau yng Nghwm Tawe...

Taflen ffynhonnell A

Camlas Abertawe

Pam gafodd camlas Abertawe ei hadeiladu?

Erbyn diwedd y 18fed ganrif, wrth i'r Chwyldro Diwydiannol barhau i fynd o nerth i nerth, roedd galw cynyddol mewn trefi a dinasoedd am danwydd fel glo, a deunyddiau crai fel mwyn haearn, mwyn copr a chalchfaen.
Adeiladwyd Camlas Abertawe fel y gellid cludo glo'n haws o feysydd glo pen uchaf a chanol Cwm Tawe i Abertawe a galluogi'r diwydiannau yno i ehangu. Roedd ffyrdd mewn cyflwr gwael iawn ar yr adeg honno ac felly nid oeddent yn addas i gludo nwyddau mawr, trwm fel glo.
Roedd Camlas Abertawe'n un o'r dyfrffyrdd a adeiladwyd yn ne Cymru yn ystod y cyfnod 'canal mania'. Cwblhaodd Cwmni Mordwyo Camlas Abertawe'r gamlas o Abertawe i Hen Neuadd (Abercraf) rhwng 1794 a 1798.

Roedd y gamlas yn 26 cilometr (16¼ milltir) o hyd, ac roedd angen 36 o lociau i'w chodi o lefel y môr yn Abertawe i ben ei thaith ger Bannau Brycheiniog, 114m (375 troedfedd) yn uwch. Fe'i hadeiladwyd i gludo cychod cul a oedd yn ddim ond 2.3 m (7½ troedfedd) o led.



Cwch cynnal a chadw'n cael ei dynnu ar hyd Camlas Abertawe yn Ynysmeudwy ym 1929. (Cyhoeddir y llun gyda chaniatâd caredig Aldwyn James, Pontardawe.)

Taflen ffynhonnell B

Camlas Abertawe

Llwyddiant y gamlas

Adeiladwyd glanfeydd newydd ar hyd y gamlas, gan alluogi diwydiannau i ddatblygu ac ehangu. Allforiwyd llawer o nwyddau gorffenedig o'r ardal i bedwar ban byd. Roedd hyn yn golygu adeiladu cyfleusterau newydd ar hyd rhan isaf y gamlas yn Abertawe fel warysau, ierdydd stoc a swyddfeydd.
Gyda'r gamlas a'i holl gyfleusterau wedi'u hadeiladu, bu twf cyflym iawn yn hanes llawer o ddiwydiannau. Ar ôl 1810, roedd llawer o byllau glo, gweithfeydd haearn, gweithfeydd brics, gweithfeydd cemegol, ffowndrïau, gweithfeydd tunplat, crochendai a bragdai newydd yn yr ardal. Dechreuodd y gweithwyr ymgartrefu ger y diwydiannau hyn a datblygodd y cartrefi hyn i fod yn bentrefi a threfi 'Cwm Tawe' yn ddiweddarach; Clydach, Pontardawe, Ynysmeudwy, Ystalyfera, Cwmgïedd, Abercraf.

Ffynnodd Cwm Tawe isaf yn sgil twf y diwydiannau copr, a gyfrannodd yn aruthrol at gyfoeth Abertawe a'r trefi cyfagos.

Gweithfeydd Tunplat Ystalyfera (Cyhoeddir y llun gyda chaniatâd caredig Cymdeithas Camlas Abertawe.)

Taflen ffynhonnell C

Camlas Abertawe

Gwibdeithiau

Roedd eglwysi neu gapeli hefyd yn ymweld â Chamlas Abertawe. Roedd y tripiau hyn yn boblogaidd iawn o ddiwedd y 19eg ganrif hyd at ddechrau'r Ail Ryfel Byd.
Paratowyd y cychod ar gyfer y dathliadau hyn gyda phaent ffres neu addurniadau papur. Rhoddwyd seddi yn y cychod i'r teithwyr hŷn tra byddai'n rhaid i'r rhai iau sefyll.

Mae'r llun hwn yn dangos pobl leol yn mwynhau diwrnod allan ar Gamlas Abertawe yn Nhreforys ar ddydd Llun y Sulgwyn ym 1923.

Ystyriwyd gŵyl y Sulgwyn fel diwrnod arbennig iawn o'r flwyddyn. Byddai cychod yn cludo selogion y capel a'r eglwys i faes carnifal lleol lle roedd pebyll a stondinau'n cael eu gosod am y dydd. Byddai oedolion a phlant yn cymryd rhan mewn gemau a chwaraeon a byddai gwledd fawr yn cael ei darparu.

(Cyhoeddir y llun gyda chaniatâd caredig Cymdeithas Camlas Abertawe.)

Taflen ffynhonnell D

Camlas Abertawe

Dyfodiad y rheilffyrdd

Erbyn y 1830au, roedd y rheilffyrdd cyntaf yn cael eu hadeiladu ym Mhrydain. Yn fuan iawn, roedden nhw'n ffyrdd rhatach a chynt o deithio ac yn gystadleuaeth i'r camlesi. Erbyn diwedd y 1860au, roedd llinell rheilffordd wedi'i hadeiladu ger y gamlas a oedd yn cysylltu Abertawe ac Ystradgynlais.

Ynghyd â'r gystadleuaeth ffyrnig gan y rheilffyrdd, roedd ffatrïoedd cynhyrchu dur newydd yn agosach at yr arfordir yn bygwth y diwydiant haearn lleol.

Erbyn 1876, roedd Gweithfeydd Haearn Ynyscedwyn yn Ystradgynlais wedi cau ac fe wnaeth y gweithfeydd yn Ystalyfera gau 10 mlynedd yn ddiweddarach. Collodd miloedd o bobl eu swyddi a dechreuodd y fasnach gamlesi o gludo glo a haearn ddirywio.

Cludwyd y cargo masnachol olaf ar Gamlas Abertawe ym 1931.

Dechreuodd sawl rhan o'r gamlas adfeilio a chafodd rhannau eraill eu llenwi gan adael dim ond 5 milltir o'r gamlas â dŵr. Fe adeiladwyd ffordd newydd ar lwybr y gamlas yn Ystradgynlais ac Abertawe hyd yn oed.

Darn adfeiliedig o Gamlas Abertawe

Crëwyd parc Gweithfeydd Haearn Ynyscedwyn ar safle'r hen weithfeydd haearn.

Camlas Abertawe

Camlas Abertawe heddiw a'i dyfodol

Yn sgil y diddordeb cynyddol sydd yna yn y camlesi ar gyfer hamdden, ffurfiodd grŵp o wirfoddolwyr Gymdeithas Camlas Abertawe ym 1981. Eu nod yw gwella'r amgylchedd gerllaw'r gamlas ac adfer y gamlas fel y gall cychod deithio ar ei hyd unwaith eto.

Dros y blynyddoedd, mae gwaith pwysig wedi cynnwys trwsio traphont ddŵr Ystalyfera a lociau Ynysmeudwy, carthu'r gamlas ac adnewyddu'r cwt ceidwad y loc olaf ar y gamlas.

Mae llawer o bobl yn mwynhau beicio a cherdded ar hyd llwybr halio'r gamlas. Mae grwpiau bywyd gwyllt ac ysgolion lleol yn ymweld â'r gamlas i fwynhau'r anifeiliaid a'r planhigion di-ri sydd yno.

Adnewyddwyd cwt ceidwad y loc yn Ynysmeudwy ym 1985.

Yn 2006, fe wnaeth plant o ysgol leol ymweld â Chamlas Abertawe i archwilio rhai o'r pyllau yng nghwmni ecolegydd Dyfrffyrdd Prydain, Stuart Moodie.